# PROSIECT LINUS



Cenhadaeth Prosiect Linus ydy rhoi cariad, diogelwch a chysur i blant sy'n sâl, anabl, gydag anghenion dysgu arbennig, dan anfantais neu mewn trallod, drwy roi rhoddion o gwiltiau a blancedi golchadwy ac wedi'u gwneud â llaw yn garedig gan wewyr a chwiltwyr gwirfoddol. Gall y cwiltiau hyn fod yn hynod werthfawr i blant a theuluoedd sy'n mynd drwy gyfnod anodd.

**Sut mae cymryd rhan**



Mae sawl ffordd o gymryd rhan a chefnogi Prosiect Linus. Mae gan ogledd Cymru gydlynydd ardal sydd bob tro yn chwilio am wirfoddolwyr i wneud cwiltiau a blancedi. Mae'r canolfannau yng Nghymru yn cynnwys ysbytai, gofalwyr maeth, hosbisau, llochesi i ferched ac ysgolion.

Dyma alwad i unrhyw un yn Nolwyddelan fyddai'n dymuno ymuno â'r gwaith. Boed yn mwynhau gweu sgwariau, cwiltiau, crosio neu'r tri. Hoffech chi gymryd rhan? Am fwy o wybodaeth am y meintiau, pethau i'w gwneud a phethau i beidio â'u gwneud, yn ogystal â deunyddiau addas… ewch i'w gwefan projectlinusuk.org.uk


neu dewch draw i'r Pafiliwn ar fore dydd Llun am fwy o wybodaeth
neu cysylltwch gyda shaunhewitt@me.com

Rydym bob tro yn croesawu rhoddion o ddefnyddiau clytwaith ac edeifion neu gymorth gyda chodi arian er mwyn prynu defnyddiau a gwlân cotwm.

Mae Prosiect Linus yn Gwmni Budd Cymunedol gwirfoddol ac nid-er-elw yn gyfan gwbl.

---

## GRWP CREFFT DYDD LLUN



Bob bore Llun, 10 tan 12

£1 y person   Croeso i bawb

Dewch i fwynhau ychydig oriau i ffwrdd o'r byd go iawn.
Dewch i wneud crefftau gyda ffrindiau o'r un meddylfryd gan rannu syniadau a phrofiadau.